Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch yn yr Ysgol

**c/o Builth Primary School**
**Hospital Road**
**Llanfair-ym-Muallt**
**Powys**
**LD2 3GA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch yn yr Ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch yn yr Ysgol |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gareth Cornelius |
| Person â gofal | Estelle Wilcocks a Sonia Tighe |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 3-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 47 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 47 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Iau 9am-11:30am 12:30pm-3pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 14 Mehefin 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/05/2024 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu rôl y pwyllgor rheoli fel bod y gwasanaeth yn gynaladwy

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â ALI Powys i’w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn frwdfrydig ac yn hyderus. Mae ganddynt lais cryf iawn ar draws bob agwedd o’u profiadau. Maent yn cyfrannu’n effeithiol iawn i’r broses gynllunio drwy ychwanegu at fapiau meddwl ac wrth rannu syniadau ar ddechrau’r sesiwn. Mae’r plant yn ymuno’n hyderus mewn sesiynau dyddiol i drafod a datblygu eu geirfa, fel trafod y tywydd a’u teimladau. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwybod bod ganddynt lais ac y caiff eu dymuniadau eu parchu.

Mae bron bob plentyn yn ymdopi’n arbennig pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a gofalwyr. Mae caredigrwydd yn cael ei ddathlu’n gyson wrth i’r plant a’r ymarferwyr adnabod rhinweddau ei gilydd. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, maent yn rhannu a chofnodi teimladau unigol. Mae’r plant yn dangos balchder yn eu gwaith, er enghraifft wrth greu darnau o waith celf unigryw sy’n cael eu harddangos yn gelfydd.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio’n dda â’i gilydd. Er enghraifft, wrth chwarae gyda’r beic tair olwyn, mae grŵp o blant yn cydweithio i deithio gyda’i gilydd ar gefn y beic. Maent yn gysurus wrth symud o un gweithgaredd i’r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am amser cynyddol ac am gyfnodau hir.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn ac yn cymell eu hunain yn y gweithgareddau o’u dewis. Yn y gegin fwd, maent wrth eu bodd yn coginio cawl wrth gymysgu pridd, dŵr ac ychwanegu sbeis i mewn i’r gymysgedd.

Maent yn sgwrsio a chwerthin yn naturiol yn eu gweithgareddau chwarae rôl wrth ddynwared bod yn fôr ladron.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol effeithiol iawn. Maent yn symud yn hyderus o un ardal i'r llall, gan gynnwys yr ardal allanol. Mae bron bob plentyn yn frwdfrydig wrth ddysgu medrau newydd ac maent yn arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol yn llwyddiannus. Mae bron bob plentyn yn annibynnol iawn wrth geisio gwisgo gwisgoedd chwarae rôl ynghyd â'r gwisgoedd aml dywydd i fynd tu allan. Mae bron bob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb arbennig am eu hylendid personol wrth sychu trwyn a golchi dwylo heb gymorth. Maent yn hyderus yn datblygu medrau newydd. Er enghraifft, o dan oruchwyliaeth, maent yn cael cyfleoedd i ddefnyddio offer go iawn megis hoelion a morthwyl ac i ddringo offer uchel i gyrraedd y llithren.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae medrau llafar bron bob plentyn yn datblygu'n dda iawn. Maent yn arddangos dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a brawddegau syml wrth sgwrsio. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddiddori mewn llyfrau'n ddigymell gan ymddwyn fel darllenwyr cynnar. Maent yn mwynhau troi'r tudalennau a sgwrsio am y lluniau gan drafod beth fydd yn digwydd nesaf yn y stori. Maent yn hyderus wrth drafod cymeriadau sy'n gyfarwydd iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod llythrennau a'r synau cysylltiedig ac yn eu hynganu'n hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn meddu ar fedrau modur man cadarn. Mae llawer yn defnyddio offer gwaith coed yn fedrus iawn. Maent yn deall pwysigrwydd gwisgo sbectol diogelwch ac yn defnyddio morthwyl a hoelion yn gelfydd a gofalus er mwyn creu tegan a gweld os fydd yn suddo neu'n arnofio mewn dŵr. Mae medrau ysgrifennu cynnar y plant yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio offer amrywiol er mwyn creu marciau yn y gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, maent yn cofnodi rhestrau tra'n chwarae rôl coginio yn y gegin.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o blant yn dda iawn. Mae lleiafrif yn cyfri hyd at bedwar ar ddeg wrth wirio sawl plentyn sy'n bresennol yn y bore. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod rhifau syml un digid yn gynyddol hyderus gan gyfri gwahanol wrthrychau yn ystod eu chwarae, er enghraifft wrth barcio beiciau yn y man priodol. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod amrediad o siapau cyfarwydd fel petryal, seren, cylch a thriongl. Maent yn chwarae rôl yn llawn creadigrwydd wrth bobi cacennau a defnyddio'r til ac arian er mwyn eu gwerthu yn y siop. Mae medrau digidol bron bob plentyn yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ffonau bychain symudol er mwyn siarad gyda'i ffrindiau wrth chwarae. Maent yn defnyddio amrediad da o adnoddau fel darganfyddwyr metel sy'n hyrwyddo eu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus wrth drafod yr hyn maent wedi eu darganfod.

Mae bron bob plentyn yn arddangos gallu creadigol arbennig. Maent yn chwarae offerynnau taro a llinynnol fel ukelele, gan ychwanegu at eu perfformiadau gorffenedig trwy wisgo fyny a chanu'n frwdfrydig i mewn i feicroffon. Mae'r plant wrth eu boddau'n gweld ei gilydd yn perfformio. Mae hyn yn datblygu hyder y plant yn effeithiol dros ben.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol rhagorol gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a theganau. Maent yn datblygu hyder corfforol arbennig wrth ddringo ar hyd yr offer mawr fel y rhwyd sy'n mynd i fyny at long y môr-ladron, ac wrth gerdded yn fedrus ar hyd y wal ddringo. Mae'r gweithgareddau hyn, o dan oruchwyliaeth yr ymarferwyr, yn caniatáu i'r plant ddysgu i gymryd risgiau a datblygu annibyniaeth wrth benderfynu sut i chwarae ar yr offer mawr.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth rhagorol, ac maent wedi meithrin perthynas effeithiol, gynnes a naturiol gyda'r plant. Maent yn eu canmol yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu llwyddiannau'r plant yn frwdfrydig. Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n rhagorol â'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda, yn parchu eu diddordebau, eu hoffterau a'u gofynion personol. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd, gan holi os ydyn nhw'n iawn a chynnig cysur os oes angen.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth arbennig o'u rolau a'u cyfrifoldebau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac i gadw plant yn ddiogel. Maent yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol gan sicrhau bod y plant yn dod a byrbryd iach, megis darn o ffrwyth o adref ac yn cynnig llaeth a dŵr i yfed. Maent yn trefnu gweithgareddau difyr yn yr awyr iach, gan gymell y plant i chwarae'n frwdfrydig er mwyn meithrin eu sgiliau corfforol. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un o'r ymarferwyr. Maent yn sicrhau bod cofnodion damweiniau, gyda'r holl fanylion perthnasol, yn cael eu llenwi'n fanwl ac yn rhannu'r rhain gyda'r rhieni a gofalwyr.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig iawn ac yn atgoffa plant i rannu teganau ac i barchu ei gilydd. Maent yn annog y plant i ddatrys unrhyw wrthdaro trwy drafodaethau synhwyrol, heb ormod o ymyrraeth neu wrth gynnig awgrymiadau, megis defnyddio amserydd tywod i gymryd tro. Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda gan sicrhau amgylchedd cynhwysol. Maent yn dilyn trefniadau cadarn i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn synhwyrol. Mae ymarferwyr yn fedrus wrth benderfynu pryd i gamu'n ôl ac arsylwi'n grâff ar y chwarae, pryd i ymyrryd yn ddeallus, a phryd i holi'r plant gyda chwestiynau pen agored i'w herio.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o'u Cymreictod ac o'r byd ehangach. Maent yn hyrwyddo a dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch wrth ddysgu am eu harferion a'u traddodiadau. Mae ymarferwyr yn frwdfrydig wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn y gweithgareddau. Maent yn manteisio'n rhagweithiol ar wasanaethau a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol a darpariaeth effeithiol i'r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr wedi datblygu cwricwlwm hynod gyfoethog sydd wedi ei seilio'n gadarn ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i ddiddordebau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn rhannu a derbyn gwybodaeth gyda'r rhieni er mwyn addasu'r ddarpariaeth fel ei bod yn apelio at ddychymyg y plant yn barhaus. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn ymgysylltu'n llawn ac mae llawer yn ymgolli'n llwyr wrth chwarae.

Nodwedd ragorol o waith y lleoliad yw'r modd y maent yn darparu cyfleoedd o chwarae estynedig tra hefyd yn addysgu medrau penodol i'r plant. Mae ymarferwyr yn cyflwyno agweddau llythrennedd yn hynod effeithiol ac mae'r plant yn ymgolli'n llwyr mewn straeon sy'n sbarduno eu dychymyg. Mae ymarferwyr yn holi'r plant yn fedrus am y modd mae'r cymeriadau'n ymateb, ac am beth fydd yn digwydd nesaf yn y stori. Maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y plant, gan ddatblygu eu medrau darllen cynnar trwy gyflwyno gwahanol lythrennau a thrafod y synau cysylltiedig.

Mae ymarferwyr yn cyfeirio at rifedd yn ystod gweithgareddau er enghraifft wrth drafod bod angen 140 gram o wahanol gynhwysion a thair banana ar gyfer y rysáit. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddysgu cyfri gwahanol wrthrychau, a dod i adnabod gwahanol siapau dau ddimensiwn. Enghraifft nodedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith coed. Yma mae ymarferwyr yn hwyluso plant i ddatblygu eu medrau modur man wrth ddefnyddio morthwyl yn fedrus a diogel. Ar draws y ddarpariaeth, mae ymarferwyr yn rhoddi rhwydd hynt i'r plant ddewis ble yr hoffent chwarae ac maent yn sicrhau bod yr holl ardaloedd yn hygyrch iddynt.

Mae ymarferwyr yn addasu'r ddarpariaeth gan ychwanegu adnoddau a theganau yn ôl y galw. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn ymgysylltu'n llawn yn y gweithgareddau. Mae'r ardaloedd chwarae a dysgu'n llawn trysorau lle mae cyfleoedd i'r plant fwynhau datblygu elfennau creadigrwydd, a magu hyder. Mae ymarferwyr yn fedrus iawn wrth ddatblygu medrau annibynnol y plant. Mae hyn yn arwain at gyd chwarae hyfryd lle mae ymarferydd yn cuddio trysor y mor ladron fel bod angen i'r plant fynd i chwilio amdano.

Mae ymarferwyr yn arsylwi yn fanwl a rheolaidd ar y plant er mwyn adnabod eu cynnydd mewn gwahanol fedrau. Maent yn rhannu gwybodaeth ymysg ei gilydd gan nodi unrhyw agweddau lle mae angen addasu'r ddarpariaeth er mwyn i'r plentyn ddatblygu'n llawn. Maent yn rhannu'r wybodaeth gyda'r rhieni a gofalwyr gan ddathlu llwyddiannau'n bwrpasol. Maent hefyd yn rhannu adnoddau buddiol gyda rhieni a gofalwyr er mwyn iddynt fedru cynnig cefnogaeth i'w plentyn adref.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd niferus a buddiol i ddathlu diwylliant lleol trwy gymryd rhan yn eisteddfod yr ysgol ac wrth ddysgu am wyliau cenedlaethol eraill fel Gwyl Sant Padrig gan fod un o'r ymarferwyr yn hanu o'r Iwerddon. Maent yn dysgu am draddodiadau Gŵyl Diwali a Holi gan fwynhau taflu'r powdr lliw sy'n rhan o'r ŵyl.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd deniadol a diddorol i ddatblygu medrau'r plant yn fwriadus. O ganlyniad, mae ansawdd yr

amgylchedd yn hynod gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd ardderchog a gwerthfawr i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Maent yn sicrhau asesiadau ysgrifenedig sy'n amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn cadw cofnod o'r holl blant, staff ac ymwelwyr, yn sicrhau bod prif ddrysau yn cael eu cadw ar glo, ac yn gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli mynediad i'r safle.

Maent yn ymarfer driliau tân yn gyson ac yn amrywio eu hamseru. O ganlyniad, mae bron bob un o'r plant yn cael cyfle i ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn lân a threfnus ac mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol.

Mae ansawdd yr amgylchedd o safon uchel ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol iawn i blant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn ddiddorol, deniadol ac yn lliwgar. Trwy arddangos esiamplau o waith y plant ar waliau'r ystafell, mae ymarferwyr yn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn yn y plant, ac yn creu naws groesawgar i bawb sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad da iawn o adnoddau amlddiwylliannol i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd uchel, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n arbennig o dda.

Mae'r drysau o'r brif ystafell i'r ardal allanol yn agored drwy'r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae. Mae'r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd rhagorol i blant i ddatblygu eu dychymyg ynghyd â sgiliau corfforol, creadigol ac ymchwiliol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau defnyddio'r cyfarpar i greu persawr. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod dewis helaeth o adnoddau bywyd go iawn ar gael i'r plant, er enghraifft cwpanau tsieni, jygiau a ffrwythau ffres yn y twba dwr i greu te. Cedwir yr adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'w mannau priodol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau ysgogol i gyfoethogi profiadau'r plant, sy'n datblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn llwyddiannus. Maent yn addas ac yn briodol i oedrannau'r plant ac mae'r ardaloedd yn cynnwys eitemau pwrpasol sy'n cyfoethogi'r chwarae, er enghraifft, offer coginio, dewis o sbeis, cynhwysydd dŵr a llyfr ryseitiau yn y gegin fwd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae gan arweinwyr weledigaeth gref sydd wedi ei seilio'n gadarn ar sicrhau darpariaeth o'r safon uchaf ar gyfer y plant yn eu gofal. Mae'r ddarpariaeth yn parhau i fynd o nerth i nerth, o dan arweinyddiaeth ysbrydoledig yr arweinwyr a'r tîm medrus sy'n cyd weithio â hwy.

Mae'r pwyllgor rheoli ynghyd â'r unigolyn cyfrifol yn cyd weithio'n effeithiol gyda'r ddau berson â gofal er mwyn sicrhau fod eu gweledigaeth yn cael ei wireddu a'i gynnal ar gyfer y plant. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r newidiadau parhaol sy'n digwydd o ran pwyllgor rheoli i leoliad Meithrin ac yn rhagweithiol er mwyn sicrhau fod aelodaeth y pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant cyfredol ac yn deall eu rolau'n llawn. Er fod peth newid wedi bod yn ystod y cyfnod diweddar i aelodaeth y pwyllgor, nid yw hyn wedi cael effaith ar rediad llyfn y ddarpariaeth. Mae

Arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i sicrhau aelodaeth llawn i'r pwyllgor er mwyn parhau i gynnal darpariaeth o'r safon uchaf.

Mae gweithdrefnau hunan werthuso yn gryfder yn y lleoliad. Mae arweinwyr a'r tîm yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth a chefnogaeth o safon uchel. Maent yn adnabod blaenoriaethau ac yn cyflwyno addasiadau pwrpasol i'r ddarpariaeth. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant gymryd risgiau wrth chwarae yn yr ardaloedd allanol. O ganlyniad i ddilyn hyfforddiant ac ymweld â lleoliadau eraill, maent wedi addasu eu dulliau gan ddatblygu hyder plant i ddod yn fwy medrus i wneud penderfyniadau a rheoli risgiau eu hunain.

Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr ac adnoddau'n effeithiol iawn. Mae ymarferwyr yn cyd weithio'n llwyddiannus gan gynnig arweiniad ar wahanol agweddau. Mae arweinwyr yn cynnal gweithgaredd gwerthuso perfformiad ymarferwyr yn rheolaidd ac mae hyfforddiant yn cael ei gynllunio yn unol â'u hanghenion a'u diddordebau. Maent yn dîm profiadol, aeddfed a chryf sy'n cyd weithio'n llwyddiannus er lles y plant yn eu gofal.

Mae gan y lleoliad nifer eang o bartneriaethau cryf sy'n dylanwadu'n rhagorol ar brofiadau dysgu'r plant. Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson a chyfoethog i ddysgu am nifer o wasanaethau o fewn y gymuned lleol. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu hyder wrth ddysgu am rôl gweithwyr y gwasanaethau brys yn lleol ac wrth ddysgu sut i ofalu am anifeiliaid y fferm. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i'r plant ymweld a threfi cyfagos gan deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar rannu arferion ynglŷn a sut i gynnal a chefnogi lles plant sy'n wynebu heriau cymdeithasol.

Mae perthynas gref a buddiol wedi gwreiddio'n gadarn gyda'r ysgol ble lleolir y ddarpariaeth. Tros gyfnod, mae staff allweddol wedi darparu cefnogaeth a chyd-weithio agos a dylanwadol er mwyn annog arweinwyr ac ymarferwyr i ddatblygu'r ddarpariaeth a chyflwyno datblygiadau cwricwlaidd. Mae hyn wedi dylanwadu'n llwyddiannus iawn ar y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn cyd weithio'n agos gyda thîm ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol a gyda mudiadau ymbarél sy'n darparu cefnogaeth werthfawr ar agweddau fel hyrwyddo llafaredd Cymraeg y plant. Mae gan arweinwyr agwedd rhagweithiol at eu gwaith. Maent yn ymweld â lleoliadau ymhell ac agos er mwyn rhannu arferion ac ystyried addasiadau y gallent eu cyflwyno er mwyn parhau i gryfhau'r ddarpariaeth ymhellach.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  24/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Gorffennaf 2024